# Cwestiynau Taflu Syniadau

*Defnyddiwch WTFcsv i nodi cwestiynau i'w gofyn i'ch taenlen*

## Beth yw WTFcsv?

Mae WTFcsv yn rhoi trosolwg cyflym i chi o beth sydd yn eich ffeil .csv. Mae'n eich helpu i symud yn gyflym i ofyn cwestiynau i'ch taenlen a all eich helpu i ddod o hyd i storïau i'w dweud. Mae'r gweithgaredd ymarferol yma'n helpu cyfranogwyr i fagu eu llythrennedd data wrth edrych ar rai setiau data difyr a thaflu syniadau am gwestiynau i'w gofyn amdanyn nhw.

## Cyfanswm amser

30 i 45 Munud

## Cynulleidfa

3 - 100 o bobl. Oedrannau 12+.
*Wedi ei ddylunio am raddau 6 - 12, dosbarthiadau Addysg Uwch, Cyrff Newyddion, Cyrff Di-elw, a Gweithdai Cymunedol. Does dim angen unrhyw brofiad blaenorol gyda data.*

## Gofod

- Taflunydd a chyfrifiadur.
- Gallu i ymrannu'n grwpiau bach o 3 o amgylch cyfrifiadur.
- Byrddau mawr neu lawr, neu dâp i lynu papur wrth waliau i gyfranogwyr gael darlunio.

## Cyflenwadau

- Cyfrifiaduron

  *1 am bob 3 chyfranogwr*
- Copïau o daflen cwestiwn WTFcsv
  *trydedd tudalen y canllaw hwn*
- Peniau

## Nodau Dysgu

- Deall bod llawer o fathau o ddata, gan gynnwys rhifau, testun, a dyddiadau.
- Gallu gwell i ffurfio damcaniaethau am fetadata a chanfod storïau ohono.
- Deall bod modd canfod llawer o storïau mewn un set ddata.
- Deall bod modd cyfuno setiau data i ateb cwestiynau mwy cymhleth.

# Cynnal y Gweithgaredd

### Datrys Problem

Agorwch daenlen mewn Excel neu rywbeth a holwch y cyfranogwyr faint sy'n treulio amser yn gweithio gyda data fel hyn. Cyflwynwch y ffeil CSV fel un ffordd safonol o gadw data storïau mewn CSV, yn enwedig pan fydd llawer o golofnau a rhesi. Mae'n ddefnyddiol dechrau drwy feddwl am ba gwestiynau gallwch chi hyd yn oed eu gofyn i'ch data. Mae WTFcsv yn eich helpu i ddadansoddi CSV yn gyflym i ddeall beth sydd ynddo er mwyn i chi allu dechrau gofyn rhai cwestiynau iddo.

### Rhannu Enghreifftiau i Ysbrydoli

Dangoswch borth data agored o rywle sy'n agos at leoliad y gweithdy (e.e. http://www.infobasecymru.net/IAS/ neu https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue). Siaradwch am yr amrywiaeth eang o setiau data sydd ar gael ar-lein mewn pyrth fel hwn. Lawrlwythwch ein data sampl am UFOs a'i agor mewn Excel. Dangoswch fod pob colofn yn cynnwys math gwahanol o wybodaeth am bob rhes.

# Cynnal y Gweithgaredd (parhad)

Dangoswch droi cerdyn drosodd i newid rhwng y crynodebau gweledol a thestun. Rhowch enghreifftiau o gwestiynau i'w gofyn, data arall byddech chi ei angen i ateb y cwestiwn hwnnw, a sut byddech chi'n ei gael. Er enghraifft, un cwestiwn gallech chi ei ofyn i'r data UFO yw "Oes mwy o achosion o weld UFO mewn trefi â mwy o bobl?" I ateb hyn, yn ogystal â'r data UFO data byddech chi angen data poblogaeth am yr holl drefi. Gallech chi gael yr wybodaeth yma o InfoBaseCymru.

## Lansio'r Gweithgaredd

1. Mae gan gyfranogwyr 15 munud.
2. Mae cyfranogwyr yn gweithio mewn timau o dri.
3. Mae pob tîm yn cael un Taflen Cwestiwn WTFcsv.
4. Mae pob tîm yn defnyddio WTFcsv i ddadansoddi un o'r CSVs sampl a bathu cwestiynau i'w gofyn iddo.
5. Mae pob tîm yn ysgrifennu'r cwestiwn mwyaf diddorol maen nhw wedi meddwl amdano ar y daflen.

## Rhannu Adborth

Wrth gerdded o gwmpas cadwch lygad allan am wahanol fathau o gwestiynau i'w hamlygu. Gofynnwch am grwpiau sydd eisiau rhannu eu cwestiwn gorau. Cyfyngwch nhw i 1 funud, er mwyn peidio ag ymgolli yn enghraifft un grŵp. Wrth i bobl rannu, galwch ar unrhyw grwpiau wnaethoch chi sylwi arnyn nhw'n gynharach sydd â chwestiynau amgen neu wahanol.

Canolbwyntiwch ar y cwestiynau a'r pynciau hyn:

- Ydy'r holl atebion i'ch cwestiynau wedi eu cynnwys yn y set ddata?
  *Nac ydyn, yn fwy na thebyg, weithiau mae angen i chi ddod o hyd i set ddata arall neu alw rhywun i gael yr wybodaeth rydych chi ei hangen.*
- O ble mae'r data wedi dod? Os nad yw ffynhonnell y data yn cael ei datgelu, dylech chi fod yn amheus.
  *Gwnaethon ni lawrlwytho'r data am UFOs o www.data.gov.uk*
- Ydych chi'n gweld mannau lle mae gwerthoedd coll? Mae gwerthoedd coll yn ddata un ffordd sy'n gallu bod yn "anniben"!
  *Holwch y cyfranogwyr am sut mae data yn gallu bod yn "anniben"; a beth allai data "glân" olygu.*
- Mae WTFcsv yn dangos data cryno cyfanredol i chi, ond weithiau gallwch chi ofyn cwestiynau diddorol am un rhes yn unig mewn set ddata, neu chwilio am "allanolyn". Wnaeth y cyfranogwyr ddod o hyd i unrhyw storïau am allanolynnau?

## I'ch atgoffa

- Nid ydym yn ceisio ateb y cwestiynau, dim ond gwneud rhestr o rai i'w gofyn.
- Does dim cwestiynau hurt.
- Mae angen "normaleiddio" rhai data i'w gymharu. E.e. i gymharu nifer yr achosion o weld UFO yn ôl tref dylech ei normaleiddio yn ôl poblogaeth fel eich bod yn cymharu achosion fesul person.

## Termau i'w Cyflwyno

**csv**
*Ffeil "comma-separated values"; ffordd safonol o gadw tablau o wybodaeth mewn ffeil testun plaen.*

**Mathau Data**
*Mae data yn cael ei ddosbarthu'n aml yn ôl math. Mae mathau data cyffredin yn cynnwys rhifau, dyddiadau a thestun.*

**Metadata**
*Mae metadata yn dweud wrthych chi am eich data er mwyn i chi ddeall beth yw e.*

**Normaleiddio**
*Proses i wneud pwyntiau data yn gymaradwy yn yr un ffordd.*

**Allanolyn**
*Un darn o'ch set ddata sy'n wahanol iawn i bopeth arall.*

---

Mae DataBasic yn gyfres o offerynnau gwe hwylus i ddechreuwyr sy'n cyflwyno cysyniadau gweithio gyda data. Mae DataBasic yn brosiect yr Engagement Lab yng Ngholeg Emerson a'r MIT Center for Civic Media. Cefnogir gan Sefydliad Knight.

Trwyddedir y gwaith hwn o dan Drwydded Ryngwladol Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 4.0. International License.

# Taflen Cwestiwn

## Ein Cwestiwn

Beth yw'r cwestiwn mwyaf diddorol hoffech chi ei ofyn i'r set ddata rydych yn edrych arni?

## Data Arall mae Arnom ni ei Angen

Oes angen unrhyw setiau data eraill arnoch chi i ateb y cwestiwn hwn?

## Ffynonellau am y Data Arall yna

Sut allech chi gael y data arall mae arnoch chi ei angen i ateb y cwestiwn hwn?

Mae DataBasic yn gyfres o offerynnau gwe hwylus i ddechreuwyr sy'n cyflwyno cysyniadau gweithio gyda data. Mae DataBasic yn brosiect yr Engagement Lab yng Ngholeg Emerson a'r MIT Center for Civic Media. Cefnogir gan Sefydliad Knight.

Trwyddedir y gwaith hwn o dan Drwydded Ryngwladol Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 4.0.